# Cymeriadau Difyr




| | |
|---|---|
| Llyfr: | **Bingo** |
| Adnoddau: | • Lluniau o rifau/cymeriadau'r gyfres 'Cymeriadau Difyr' (wedi'u lamineiddio os yw'n bosib) – *gweler y ddogfen 'Cymeriadau Difyr Maint A3'.*<br>• Numicons.<br>• Cardiau Bingo.<br>• Peli bingo. |
| Camau: | Darllenwch a thrafodwch y llyfr 'Cymeriadau Difyr: Bingo'.<br><br>Mae'r ffrindiau i gyd wedi mynd i chwarae bingo yn y stori. Beth am i ni chwarae bingo? Dyma rai enghreifftiau o beth allwch chi ei wneud.<br><br>**<u>Cam 1: Twba tywod</u>**<br>Rhowch y peli bingo 0-10 yn y twba dŵr/twba tywod. Yna'r dysgwyr i chwilio am y rhifau a chyfateb y rhain gyda'r garden bingo.<br><br>**<u>Cam 2: Gêm o bingo</u>**<br>Ewch ati i chwarae gêm o bingo. Gallwch wahaniaethu yn ôl yr angen. Rhifau hyd at 10 / hyd at 20.<br><br>**<u>Cam 3: Ardal allanol</u>**<br>Creu carden bingo (sgwâr neu betryal) yn yr ardal allanol a rhoi rhifau yn y siâp iddyn nhw. Cuddiwch y rhifau o gwmpas yr ardal allanol - *gweler y ddogfen 'Cymeriadau Difyr Maint A3'.* Anogwch y plant i chwilio am y rhifau, gan gyfateb y rhifau ar y garden.<br>Defnyddiwch numicons neu bethau diriaethol i gyfateb. |
| Cwestiynu: | • Pa rif sy'n dod ar ôl 4?<br>• Pa rif sy'n dod cyn 9?<br>• Rydych chi wedi ffeindio rhif 3.<br>• Beth yw dwbl rhif 3?<br>• Pa rif sydd 1 yn llai na ...? 1 yn fwy? 2 yn llai? 2 yn fwy? |
| Beth nesaf? | Odrifau ac eilrifau - mynd gam ymhellach a defnyddio rhifau mwy na 10. |

